Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 12 October 2017, Eleth/Eilian Rooms

Present:

Cllr. Aled M Jones	IOACC and SSG Chair
Mair Jones	Magnox Communications
John McGough	Office for Nuclear Regulations
Gareth Davies	Wylfa Prospect Rep
Gordon Warren	Amlwch Town Council
Roger Dobson	Llanbadrig Community Council
Gareth Winston Roberts	Amlwch Town Council
Stuart Law	Wylfa Site Director
Deborah Ward	Nuclear Decommissioning Authority
Efan Milner	IOACC
Rona Arkle	Environment Agency/Natural Resources Wales
Mark Elsworth	Magnox Wylfa

Also:

Caroline Jones	Minute taker - Cymen
Lowri Gwyn	Translator – Cymen

Apologies:

Jonathan Jenkin	Nuclear Decommissioning Authority
Julia Frost	Natural Resources Wales
Ken P Hughes	IOACC Talybolion
Jill Callendar	Magnox SSG Secretariat
Gary Leighton Jones	North Wales Police
Tim Poole	Campaign for the Protection of Rural Wales
Tom Conway	Wylfa Retirees Association
Cllr Richard Owain Jones,	IOACC Twrcelyn Ward
Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
Michelle Humphreys	Magnox Communications
John Idris Jones	Snowdonia Enterprise Zone
Helen Grove-White	Siop Mechell
Rhun ap Iorwerth	Assembly Member, Ynys Môn
Enid Jones	Merched y Wawr
Cllr. Richie Hughes	Mechell Community Council

1. **Welcome and receive apologies for absence**
   The Chair welcomed everyone to the meeting at 3.00pm.

2. **Approval of Minutes of the 22 June 2017 Meeting**
   Roger Dobson proposed that the minutes were correct and was seconded by Cllr. Gordon Warren. The minutes were received and accepted as a true record.

3. **Matters arising from the previous Minutes**
   The Chair stated that all matters were covered in the agenda.

4. **SSG Chairman's Report**
   The Chairman reported that it had been a busy time since last meeting. He had met with David Peattie, Chief Executive Officer of the Nuclear Decommissioning Authority (NDA) in September in Cumbria; the NDA was looking at bringing the decommissioning contract in-house. The contract with Cavendish Fluor Partnership would be terminated in August 2019; this was an opportunity for a general meeting to be held. All NDA SSG Chairs had met with members of the Magnox Executive Team in September who assured them that they were committed as a company to see the contract to its end in a professional and efficient manner.

   The NDA National Stakeholder Group summit had been held in Cumbria in September, which had been an opportunity for the NDA to demonstrate to stakeholders its relevance to the community it serves, the socio-economic benefits and the way forward.

   Both the Holliday Inquiry report and the National Audit Office report relating to the Magnox competition had been published.

5. **Wylfa Site Director's Report**
   Stuart Law presented his report, which was circulated in advance, highlighting points within it. Through the summer, the focus had been on safety compliance and defuelling. Throughout this time, only one of the three key defuelling processes had been available at any one time. This was caused predominantly due to breakdowns of equipment, which had caused concern. However, improvements are now in place and support sought from other sites including staff from Sellafield to help.

   As of 27th September, the reactors were 45% defuelled overall.

   Intermediate Level Waste retrieval from Dry Store Cell 4 had begun, following a review from the ONR, NRW and the Engineering Manager on site. Stuart Law stated that the organisation was pleased with the way this project was going.

   Stuart Law reported that there were large projects in place to remove asbestos from the site. ONR are able to see that Magnox has met the requirements of the formal improvement notice issued in April. There were two large contracting teams undertaking this work, with approx. 80 people in each.

   The Nuclear Safety Environment Council had made a site visit. This group reported to the Magnox Board. Stuart Law reported that the visit had been a good one.

   An update on Maentwrog site operations was given as per the report. The planned summer outage had been completed and the site was now back in operation.

   Stuart Law referred to the Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q) item within his report, specifically an incident involving an individual who had suffered an

injury as a result of a fall from height whilst using a companionway ladder on a pile cap fuelling machine. The individual landed on his feet and no bones were broken. An investigation had been carried out; however, it had not been possible to ascertain a cause. The individual could not remember what happened. Thankfully he has fully recovered and is back at work.

There had been a number of visits to the site by external stakeholders, including a presentation given to the Benllech over 50s group.

An update was given on the Magnox socio-economic scheme funding, which the community around Wylfa had benefitted from. The Welsh Government and the EU had the previous week awarded a £4.5 million grant to the Morlais Tidal Energy project, which is located just off Holyhead, and had benefited from an initial £300,000 grant from the NDA to Menter Môn. It was good to see this project come to fruition. Grŵp Llandrillo Menai had also received a £2m funding package from the NDA for the engineering training centre at Llangefni. Stuart Law asked members to share this good news locally.

Stuart Law reported that Magnox had taken a stand at the National Eisteddfod in Anglesey in August, which had generated much interest.

Questions and comments:
Roger Dobson asked when defuelling was expected to end. Stuart Law responded that the current position he aspired to was that completion would be by March 2019; this was according to the budget. However, when looking at the assessment progress and forecasts, the best estimate took it to November 2019. Wylfa had more defuelling work than any other site nationally and if reliability of equipment was improved, this may be completed faster.

Gareth Winston Roberts commented that it was important for locals to realise what Magnox had done with regard to the Morlais Tidal Energy project and asked whether it was a PLC in order to ensure that there would be public benefit form the company. This information was not available to hand, and an action was placed on Mair Jones to look into this further, obtain details and circulate it to SSG Members.

Action 5.1: Mair Jones to clarify Menter Môn's legal status.

6. **Nuclear Decommissioning Authority Update**
Deborah Ward thanked Stuart Law for referring to the community benefit projects and went on to present her report, which had been circulated in advance.

Deborah Ward gave an update on the Holliday Inquiry into the Magnox competition. The National Audit Office had investigated how the consolidation was handled. The report had been published the previous day, which included heavy criticism of the NDA. No conclusions had yet been drawn from this interim report. The NDA had worked with other bodies to provide as much information as possible and acknowledged that mistakes had been made. The NDA was co-operating fully with the Holliday Inquiry, details of which were now available online. A new NDA Chief Executive Officer, David Peattie and Chairman, Tom Smith were now in post and changes had been made to strengthen the commercial team.

The NDA was seeking applications for PhD research related to nuclear decommissioning; which would have up to £500k available annually.

An update on decommissioning at Sellafield was presented as per the report.

A presentation on continuous decommissioning would be presented at the next SSG meeting.

Questions and comments:
A comment was received from Roger Dobson that should the research come to fruition at Wylfa it could have profound effects, i.e. benefits for the local workforce and companies. Also, with outsourcing coming to an end, there was a possibility of insourcing. If this was the case, he personally was very keen on as little outsourcing as possible as it was expensive and not necessarily reliable. In response. Deborah Ward said that a decision had not yet been made, however it was working well at Sellafield. The NDA would inform the SSG of any decisions made and was willing to listen to views, which could be sent to the NDA direct.

The Chair commented that it was unlikely that another competition would be run in light of the National Audit Office's interim report and that he was trying to arrange a meeting of all SSG Chairs and Vice Chairs together with the NDA CEO and Chair.

Stuart Law added a comment about the subsidiary model; it had been made clear that this was subject to Government decision. In addition, regarding presentation of changes to strategies for decommissioning, these take years to come through, and are subject to many Government challenges, which were starting to be discussed.

7. **Office for Nuclear Regulation Update**
John McGough introduced himself as Welsh Inspector for nuclear safety. He referred to his report, which had been circulated to members in advance. He referred to the inspections carried out at Wylfa, both routine and non-routine. There were 16 licensed conditions, all rated green. The ONR is in the process of raising a level 2 issue, associated with asbestos and a new one regarding defuelling. The ONR had recently written to Wylfa regarding an issue with asbestos, to which Magnox had since complied.

John McGough also reported that a license instrument LC034 had been issued – i.e. an admin process.

It was reported that Adriènne Kelbie has been appointed Chief Executive of the UK's nuclear regulator.

Questions and comments
Roger Dobson asked for information on where the asbestos removed from site was disposed of. Stuart Law did not have this information to hand, however explained that there was a waste management plan; the asbestos was double bagged and stored in a secure area before a specialist contractor removed it from site and disposed of it.

7.1 Action: Stuart Law to advise SSG Members of location of the site where asbestos is disposed.

8. **Natural Resources Wales Update**
Rona Arkle presented the report that which been circulated in advance. She explained that her colleague Paul Wright who usually attended the SSG meetings and presented the report had been appointed in a six-month secondment.

Since the last meeting, an inspection of the treatment plant and waste management had been carried out. Observations were that the plant was well managed, and there were no non-compliance issues.

The removal of bulk oils and chemicals from site had started progressing again following a pause since the large amount done in 2016.

A joint inspection of waste management was being done with the ONR on low-level waste produced through the retrieval process. This was expected to take approximately a year to complete.

Rona Arkle added that there was further information was available in the report.

There were no questions.

9. **Wylfa Waste Management Update**
Stuart Law presented the report on behalf of Aled Williams. Reactor 2 circulator oil had been removed.

The 5 Amino Pentanol tank had been emptied and the hazardous chemical had been removed from the site. Work was underway to remove hazards from other areas.

There were no questions.

10. **Magnox socio-economic scheme update**
Mair Jones presented an update and referred to the Morlais project, Grŵp Llandrillo Menai and Eisteddfod activities as already reported earlier in the meeting.

Anglesey County Council's Energy Island project had been allocated £100k over 3 years for infrastructure projects; consultation activities were to begin in the next month.

The Communities First programme was progressing well, and included driving tuition funded by the Magnox socio-economic scheme.

There had been 12 good neighbourhood applications to date this year. There was a £6k cap on applications from a £72k allocation. Recipients of the Good Neighbour funding were listed as per the report.

Mair advised the members that the Magnox socio economic plan, approved by the NDA was available to view on the Magnox website.

Questions and comments
Gareth Winston Roberts requested clarification of breakdown of £100,000 Magnox funding for the Strategic Infrastructure Project.

10.1 Action: Mair Jones to provide a breakdown of the 100K funding provided for the Strategic Infrastructure Project.

11. **Open Forum Question and Answer session**
Gareth Winston Roberts: With regard to the planning application that was being submitted, a request was made that the SSG write a letter to Horizon Nuclear Power regarding its disappointment that more consideration was not being given to the development of the road from Cemaes to the Shell junction e.g. there was opportunity now to include a cycle track on the road. Cllr. Roberts also commented that Horizon Nuclear Power was applying for planning permission and that they were not looking for a legacy, i.e. employment, and therefore, asked if there was a possibility of creating new jobs in Rhosgoch.

The Chair also highlighted the need to improve the road from Wylfa to Rhosgoch and equally Horizon leaving a legacy.

Stuart Law, said that it was not in Magnox's remit to write such a letter as this group was not considering work being done by Horizon, which was the role of the Horizon Public

Liaison Group. The Chair added that he was willing to write a letter from the SSG. Stuart Law said this could not be Magnox's opinion; the Chair confirmed it would be from the SSG.

12. **Any Other Business**
    There was no other business.

    The Chair closed the meeting at 3.40pm
    Next Meeting – 1 February 2018 (Venue to be confirmed)

Appendix 1

Further to the meeting, an email has been circulated to SSG members in response to the actions raised.

Action 5.1
Question (from Gareth Winston Roberts): Is Menter Mon a public limited company? Who received the Magnox funding for the Morlais project?

Answer: Magnox paid Menter Môn Ltd the seed funding specifically for the Morlais project. Menter Môn is registered as a private company limited by guarantee without share capital. (Company no. 03160233).

Action 7.1
Question (from Roger Dobson): Where is the asbestos from Wylfa disposed of?

Answer: The asbestos is double bagged on site and locked in a suitable container; it is then removed from site by a certified contractor and taken to Pilsworth South landfill site in Bury, Lancashire.

Action 10.1
Question (from Gareth Winston Roberts): Requested clarification of breakdown of £100,000 Magnox funding for Isle of Anglesey County Council Energy Island Strategic Infrastructure Project

Answer:

Project	**Total Project value (over 3 years)**
EZ5 Llangefni Infrastructure	£11,500
EZ3 Penrhos Extension	£20,000
Holyhead Port Masterplan	£30,000
Amlwch Regeneration Masterplan (expanded to North Anglesey)	£38,500

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
Dydd Iau 12 Hydref 2017 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian

Yn bresennol:

Y Cyng. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn a Chadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Mair Jones	Uned Gyfathrebu Magnox
John McGough	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Gareth Davies	Cynrychiolydd Prospect Wylfa
Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Roger Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Gareth Winston Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Wylfa
Deborah Ward	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Efan Milner	Cyngor Sir Ynys Môn
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru
Mark Elsworth	Magnox Wylfa

Hefyd:

Caroline Jones	Cofnodydd - Cymen
Lowri Gwyn	Cyfieithydd - Cymen

Ymddiheuriadau:

Jonathan Jenkin	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ken P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Talybolion
Jill Callendar	Magnox, Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Gary Leighton Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Y Cyng. Richard Owain Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Richard Foxhall	Pŵer Niwclear Horizon
Michelle Humphreys	Uned Gyfathrebu Magnox
John Idris Jones	Ardal Fenter Eryri
Helen Grove-White	Siop Mechell
Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad, Ynys Môn
Enid Jones	Merched y Wawr
Y Cyng. Richie Hughes	Cyngor Cymuned Mechell

1. **Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 3.00pm.

2. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2017**
   Cynigiodd Roger Dobson fod y cofnodion yn gywir, ac eiliwyd hynny gan y Cyng. Gordon Warren. Cafodd y cofnodion eu derbyn yn gofnod cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol**
   Dywedodd y Cadeirydd fod yr holl faterion yn cael eu trin yn yr agenda.

4. **Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle**
   Dywedodd y Cadeirydd fod pethau wedi bod yn brysur ers y cyfarfod diwethaf. Cyfarfu â David Peattie, Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ym mis Medi, yn Cumbria; roedd yr Awdurdod yn ystyried gwneud y contract datgomisiynu yn un mewnol. Byddai'r contract â Cavendish Fluor Partnership yn cael ei derfynu yn Awst 2019; roedd hyn yn gyfle i gynnal cyfarfod cyffredinol. Roedd holl Gadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd yr NDA wedi cyfarfod ag aelodau Tîm Gweithredol Magnox ym mis Medi. Rhoddodd y tîm sicrwydd eu bod wedi ymrwymo fel cwmni i fod yn broffesiynol ac effeithlon wrth weld y contract yn cael ei gwblhau.

   Cynhaliwyd uwchgynhadledd Grŵpiau Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA yn Cumbria ym mis Medi. Roedd hyn yn gyfle i'r NDA ddangos i'r rhanddeiliaid mor berthnasol yw i'r gymuned mae'n ei gwasanaethau, beth yw'r manteision economaidd-gymdeithasol a beth yw'r ffordd ymlaen.

   Cyhoeddwyd adroddiad Ymchwiliad Holliday ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am gystadleuaeth Magnox.

5. **Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**
   Cyflwynodd Stuart Law yr adroddiad a oedd wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw, a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo. Canolbwyntiwyd drwy'r haf ar gydymffurfio â diogelwch a gwagio tanwydd. Drwy gydol yr amser, dim ond un o'r tair prif broses gwagio tanwydd oedd ar gael ar y tro. Offer wedi torri oedd yn gyfrifol am hyn, ac roedd y mater yn achosi pryder. Fodd bynnag, mae gwelliannau'n eu lle erbyn hyn a chafwyd cymorth gan safleoedd eraill, gan gynnwys staff o Sellafield i helpu.

   O 27 Medi ymlaen, mae 45% o'r tanwydd wedi'i wagio o'r adweithyddion.

   Cychwynnwyd ar y gwaith o adfer Gwastraff Lefel Canolradd o Gell Storio Sych 4, a hynny'n dilyn adolygiad gan yr ONR, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Rheolwr Peirianneg ar y safle. Dywedodd Stuart Law fod y sefydliad yn falch o'r ffordd roedd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

   Dywedodd Stuart Law fod prosiectau mawr yn bodoli i gael gwared ar asbestos o'r safle. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn gallu gweld bod Magnox wedi cwrdd â gofynion y rhybudd gwella ffurfiol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill. Mae dau dîm contractio mawr yn gwneud y gwaith, a thua 80 o bobl ymhob un.

   Mae'r Cyngor Diogelwch Niwclear a'r Amgylchedd wedi ymweld â'r safle. Adroddodd y grŵp yn ôl i Fwrdd Magnox. Dywedodd Stuart Law fod yr ymweliad wedi bod yn un da.

   Cafwyd diweddariad ar weithrediadau safle Maentwrog fel yn yr adroddiad. Trefnwyd cyfnod segur dros yr haf ac roedd wedi dod i ben erbyn hyn a'r safle'n weithredol eto.

Cyfeiriodd Stuart Law at yr eitem ar yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd yn ei adroddiad, yn arbennig y digwyddiad lle oedd unigolyn wedi cael anaf ar ôl disgyn o uchder wrth ddefnyddio ysgol 'companionway' ar beiriant tanwydd 'pile cap'. Glaniodd yr unigolyn ar ei draed ac ni thorrodd unrhyw esgyrn. Cynhaliwyd ymchwiliad; ond ni lwyddwyd i ganfod beth achosodd y ddamwain. Ni allai'r unigolyn dan sylw gofio beth ddigwyddodd. Yn ffodus, mae wedi gwella'n llwyr ac mae'n ôl yn ei waith.

Cafwyd nifer o ymweliadau â'r safle gan randdeiliaid allanol, gan gynnwys cyflwyniad i griw dros hanner cant Benllech.

Rhoddwyd diweddariad ar gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox, ac roedd y gymuned o gwmpas Wylfa wedi cael budd o hwnnw. Yr wythnos cynt, roedd Llywodraeth Cymru a'r UE wedi rhoi grant gwerth £4.5 miliwn i brosiect Ynni'r Llanw Morlais, oddi ar arfordir Caergybi, ac roedd wedi cael grant cychwynnol o £300,00 gan yr NDA i Fenter Môn. Da oedd gweld y prosiect yn dwyn ffrwyth. Roedd Grŵp Llandrillo Menai hefyd wedi cael pecyn cyllid o £2 filiwn gan yr NDA tuag at ganolfan hyfforddiant peirianneg yn Llangefni. Gofynnodd Stuart Law i'r aelodau rannu'r newyddion da yn lleol.

Adroddodd Stuart Law fod Magnox wedi cael stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn ym mis Awst, ac wedi ennyn llawer o ddiddordeb.

Cwestiynau a sylwadau:
Holodd Roger Dobson pryd roedd disgwyl i'r gwaith gwagio tanwydd ddod i ben. Atebodd Stuart Law mai'r sefyllfa roedd yn dymuno ei chael ar hyn o bryd oedd gweld y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2019; roedd hyn yn unol â'r gyllideb. Ond wrth edrych ar hynt yr asesiad a'r rhagolygon, yr amcangyfrif gorau oedd Tachwedd 2019. Roedd mwy o waith gwagio tanwydd yn Wylfa nac ar unrhyw safle arall yn genedlaethol, a phetai'r offer yn gallu bod yn fwy dibynadwy, gellid cwblhau'r gwaith yn gynt.

Dywedodd Gareth Winston Roberts ei bod yn bwysig i bobl yr ardal sylweddoli beth roedd Magnox wedi'i wneud i brosiect Ynni'r Llanw Morlais, a gofynnodd a oedd yn gwmni cyfyngedig drwy warant er mwyn sicrhau y byddai'r cyhoedd yn cael budd o'r cwmni. Nid oedd yr wybodaeth ar gael, a gofynnwyd i Mair Jones ymchwilio rhagor i hyn, cael y manylion, a'u dosbarthu i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

Cam gweithredu 5.1: Mair Jones i egluro statws cyfreithiol Menter Môn.

6. **Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)**
Diolchodd Deborah Ward i Stuart Law am gyfeirio at y prosiectau budd cymunedol, ac aeth yn ei blaen i gyflwyno ei hadroddiad a oedd wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw.

Rhoddodd Deborah Ward ddiweddariad am yr Ymchwiliad Holliday i gystadleuaeth Magnox. Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi ymchwilio i'r modd y cafodd y cyfuniad ei drin. Cyhoeddwyd yr adroddiad y diwrnod cynt, ac roedd yn cynnwys beirniadaeth gref o'r NDA. Ni ddaethpwyd i gasgliadau eto o'r adroddiad interim. Roedd yr NDA wedi gweithio gyda chyrff eraill i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl, ac roeddent yn cydnabod bod camgymeriadau wedi digwydd. Roedd yr NDA yn cydweithredu'n llwyr ag Ymchwiliad Holliday, ac roedd y manylion ar gael ar-lein erbyn hyn. Roedd Prif Swyddog Gweithredol newydd i'r NDA, sef David Peattie, a Chadeirydd newydd, sef Tom Smith, yn eu swyddi erbyn hyn, a gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau'r tîm masnachol.

Roedd yr NDA yn gwahodd ceisiadau i wneud ymchwil PhD am ddatgomisiynu niwclear; byddai hyd at £500k ar gael bob blwyddyn.

Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn â datgomisiynu yn Sellafield, fel yn yr adroddiad.

Rhoddir cyflwyniad ar ddatgomisiynu parhaus yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.

Cwestiynau a sylwadau:
Cafwyd sylw gan Roger Dobson yn dweud y gallai'r ymchwil gael effeithiau dwfn petai'r ymchwil yn dwyn ffrwyth yn Wylfa, hynny yw manteision i'r gweithlu lleol a chwmnïau lleol. Hefyd, gan fod y contract allanol am ddod i ben, roedd posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau mewnol. Os felly y bydd hi, roedd o'n awyddus iawn i gael cyn lleied â phosibl o adnoddau allanol gan eu bod yn ddrud iawn ac nad oedd modd dibynnu arnyn nhw o reidrwydd. I ymateb, dywedodd Deborah Ward nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma, ond roedd pethau'n gweithio'n dda yn Sellafield. Byddai'r NDA yn rhoi gwybod i'r Grŵp am unrhyw benderfyniadau, ac roedd yn fodlon gwrando ar farn. Gellid anfon y rheini i'r NDA yn uniongyrchol.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn annhebygol iawn y byddai cystadleuaeth arall yn cael ei chynnal oherwydd adroddiad interim y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac roedd yn ceisio trefnu cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeirydd yr Holl Grŵpiau Rhanddeiliaid Safle ynghyd â Phrif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd yr NDA.

Ychwanegodd Stuart Law sylw at y model is-gwmni; eglurwyd mai penderfyniad i'r Llywodraeth oedd hyn. Hefyd, o ran cyflwyno newidiadau i strategaethau ar gyfer datgomisiynu, fe allai'r rhain gymryd blynyddoedd i ddod drwodd, maent yn agored i nifer o heriau gan y Llywodraeth, ac roeddy rhieni'n dechrau cael eu trafod.

7. **Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**
Cyflwynodd John McGough ei hun fel Arolygydd Cymru ar gyfer diogelwch niwclear. Cyfeiriodd at ei adroddiad, a oedd wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw. Cyfeiriodd at yr arolygiadau a gynhaliwyd yn Wylfa, a hynny'n rhai fel mater o drefn a rhai eraill. Cafwyd 16 o amodau trwyddedig, a phob un yn wyrdd. Mae'r ONR wrthi'n codi mater lefel 2, yn gysylltiedig ag asbestos ac un newydd yn ymwneud â gwagio tanwydd. Yn ddiweddar, roedd yr ONR wedi ysgrifennu at Wylfa am broblem asbestos, ac roedd Magnox wedi cydymffurfio ers hynny.

Adroddodd John Gough hefyd fod offeryn trwydded LC034 wedi cael ei ryddhau - sef proses weinyddol.

Adroddwyd bod Adriènne Kelbie wedi cael ei phenodi'n Brif Weithredwr rheoleiddiwr niwclear y DU.

Cwestiynau a sylwadau
Gofynnodd Roger Dobson am wybodaeth ynglŷn â lle rhoddwyd yr asbestos o'r safle. Nid oedd Stuart Law yn meddu ar yr wybodaeth yma, ond esboniodd fod cynllun rheoli gwastraff yn bodoli; roedd yr asbestos yn cael ei fagio ddwywaith a'i storio mewn lle dan glo cyn i gontractwr arbenigol ei symud o'r safle a chael gwared arno.

7.1 Cam Gweithredu: Stuart Law i roi gwybod i aelodau'r Grŵp beth yw lleoliad y safle lle mae'r asbestos yn mynd.

8. **Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyflwynodd Rona Arkle yr adroddiad a oedd wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw. Esboniodd fod ei chydweithiwr Paul Wright, sydd fel arfer yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp ac yn cyflwyno'r adroddiad, wedi'i benodi i secondiad chwe mis.

Ers y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd archwiliad o'r safle trin a rheoli gwastraff. Yn ôl yr arsylwadau, roedd y safle'n cael ei reoli'n dda, ac nid oedd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio.

Dechreuwyd tynnu olewau a chemegion swmp o'r safle eto, yn dilyn seibiant ers y swm mawr yn 2016.

Cynhelir archwiliad ar y cyd o reoli gwastraff gyda'r ONR ar wastraff lefel isel drwy'r broses adfer. Disgwylid i hyn gymryd rhyw flwyddyn i'w gwblhau.

Ychwanegodd Rona Arkle fod rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad.

Nid oedd unrhyw gwestiynau.

9. **Diweddariad am Reoli Gwastraff Wylfa**
Cyflwynodd Stuart Law yr adroddiad ar ran Aled Williams. Roedd olew cylchredwr Adweithydd 2 wedi cael ei symud.

Roedd y tanc 5 Amino Pentanol wedi cael ei wagio a symudwyd y cemegyn peryglus o'r safle. Roedd gwaith yn cael ei wneud i gael gwared ar beryglon o ardaloedd eraill.

Nid oedd unrhyw gwestiynau.

10. **Diweddariad am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox**
Cyflwynodd Mair Jones ddiweddariad, a chyfeiriodd at brosiect Morlais, Grŵp Llandrillo Menai a gweithgareddau'r Eisteddfod fel yr adroddwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

Roedd prosiect Ynys Ynni Ynys Môn wedi cael £100k am 3 blynedd ar gyfer prosiectau seilwaith; roedd gweithgareddau ymgynghori ar fin cychwyn yn y mis nesaf.

Roedd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn mynd yn ei blaen yn dda, ac roedd yn cynnwys gwersi gyrru gydag arian gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox.

Cafwyd 12 cais cymdogaethau da hyd yma eleni. Roedd £6 o gap ar geisiadau o £72k o ddyraniad. Roedd rhestr o'r rhai oedd wedi derbyn cyllid Cymydog Da yn yr adroddiad.

Dywedodd Mair wrth yr aelodau fod modd gweld cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox, wedi'i gymeradwyo gan yr NDA, ar wefan Magnox.

Cwestiynau a sylwadau
Gofynnodd Gareth Winston Roberts am eglurhad o'r £100,000 o gyllid gan Magnox i'r Prosiect Seilwaith Strategol.

10.1 Cam Gweithredu: Mair Jones i roi dadansoddiad o'r £100,000 o gyllid i'r Prosiect Seilwaith Strategol.

11. **Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored**
Gareth Winston Roberts: O ran y cais cynllunio a oedd yn cael ei gyflwyno, cafwyd cais i'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle ysgrifennu llythyr at Bŵer Niwclear Horizon i fynegi siom nad oedd mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu'r ffordd o Gemaes i gyffordd Shell, e.e. roedd cyfle nawr i gynnwys llwybr seiclo ar y ffordd. Dywedodd y Cyng. Roberts hefyd fod Pŵer Niwclear Horizon yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ac nad oeddent yn chwilio am waddol, hynny yw cyflogaeth, felly gofynnodd a oedd modd creu swyddi newydd yn Rhosgoch.

Pwysleisiodd y Cadeirydd hefyd fod angen gwella'r ffordd o Wylfa i Rosgoch, a hefyd fod angen i Horizon adael gwaddol.

Dywedodd Stuart Law nad oedd o fewn cylch gorchwyl Magnox i ysgrifennu llythyr o'r fath gan nad oedd y grŵp yn ystyried gwaith sy'n cael ei wneud gan Horizon, sef swyddogaeth Grŵp Cyswllt Cyhoeddus Horizon. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn fodlon ysgrifennu llythyr gan y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Dywedodd Stuart Law na allai hyn fod yn farn Magnox; cadarnhaodd y Cadeirydd mai gan y Grŵp Rhanddeiliaid Safle y byddai'n mynd.

12. **Unrhyw Fater Arall**
Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 3.40pm.
Y Cyfarfod Nesaf – 1 Chwefror 2018 (Lleoliad i'w gadarnhau).

Atodiad 1

Yn dilyn y cyfarfod, dosbarthwyd neges e-bost i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle i ymateb i'r camau gweithredu a godwyd.

Cam gweithredu 5.1
Cwestiwn (gan Gareth Winston Roberts): A yw Menter Môn yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus? Pwy sydd wedi derbyn cyllid Magnox ar gyfer prosiect Morlais?

Ateb: Mae Magnox wedi talu'r cyllid sbarduno yn benodol ar gyfer prosiect Morlais. Mae Menter Môn wedi'i gofrestru'n gwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau. (Rhif cwmni: 03160233).

Cam gweithredu 7.1
Cwestiwn (gan Roger Dobson): Ymhle ceir gwared ar yr asbestos o Wylfa?

Ateb: Mae'r asbestos yn cael ei fagio ddwywaith ar y safle ac yn cael ei roi dan glo mewn cynhwysydd addas; yna, mae'n cael ei symud o'r safle gan gontractwr ardystiedig ac yn mynd i safle tirlenwi Pilsworth yn Bury, Swydd Gaerhirfryn.

Cam gweithredu 10.1
Cwestiwn (gan Gareth Winston Roberts): Gofynnwyd am ddadansoddiad o'r £100,000 o gyllid gan Magnox ar gyfer Prosiect Seilwaith Strategol Ynys Ynni Cyngor Sir Ynys Môn

Ateb:

Prosiect	**Cyfanswm gwerth y prosiect (dros 3 blynedd)**
Seilwaith EZ5 Llangefni	£11,500
Estyniad i EZ3 Penrhos	£20,000
Uwchgynllun Porthladd Caergybi	£30,000
Uwchgynllun Adfywio Amlwch (wedi'i ymestyn i Ogledd Ynys Môn)	£38,500